# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Little Inspirations Llantrisant**

**Little Inspirations**
**Parc Busnes Llantrisant**
**Llantrisant**
**Pont-y-clun**
**CF72 8YW**

**This report is also availabel in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

28/07/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Meithrinfa Little Inspirations Llantrisant

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Little Inspirations Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 104 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Mewnosod â llaw<br>4 Mehefin 2019 (arolygiad ar y cyd ag Estyn) |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Mewnosod â llaw<br>Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Caiff y plant gyfleoedd da i wneud dewisiadau a dylanwadu ar drywydd eu chwarae. Maent yn hapus ac wedi ymlacio yn eu perthynas â'r staff, gan ddangos ymddiriedaeth a chynhesrwydd. Mae'r plant yn ymddwyn yn garedig ac yn ystyriol, gan gyfathrebu'n effeithiol gydag oedolion a'u cyfoedion. Mae'r plant yn gwerthfawrogi'r cyfle i chwarae'n egnïol yn yr ardal chwarae awyr agored. Maent yn annibynnol ac yn hyderus yn eu galluoedd eu hunain.

Mae'r staff yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn effeithiol iawn ac yn annog arferion hylendid cadarnhaol. Mae gan y staff berthynas gynnes â'r plant ac mae eu rhyngweithio yn barchus. Caiff y gweithgareddau eu llywio gan y plant ac mae gwaith olrhain datblygiad yn fanwl a phwrpasol.

Mae'r safle wedi'i ddylunio'n dda ac wedi'i ystyried yn ofalus, gan ddarparu cyfleusterau da iawn. Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd ar ffurf cynllun agored, sy'n galluogi'r plant i gael mynediad rhwydd i ystod eang iawn o weithgareddau yn annibynnol, gan gynnwys chwarae yn yr awyr agored. Mae systemau addas ar waith i sicrhau amgylchedd diogel, glân a saff, ac mae contractau ar waith gyda gwasanaethau i sicrhau bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n effeithiol. Mae ystod ardderchog o adnoddau ac offer o ansawdd da.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn briodol ac mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio'n galed i gynnal gwasanaeth da, yn enwedig yn ystod pandemig COVID-19. Gwelsom faes o ddiffyg cydymffurfio o ran cynnal cymarebau staff:plentyn ond nid ydym wedi dyroddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth y tro hwn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu eu gwasanaeth yn flynyddol, gan wrando ar y plant, y rhieni a'r staff, a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau. Mae'r staff yn cael eu cyflogi yn unol â gweithdrefnau recriwtio diogel, cânt eu cefnogi'n dda, ac maent yn mwynhau eu gwaith. Mae'r holl bolisïau, gweithdrefnau a chofnodion gofynnol ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae rhai wedi cael eu diweddaru ymhellach yn ystod yr arolygiad hwn. Mae'r rhieni'n ganmoliaethus iawn ac yn canmol y staff a'r gofal y mae eu plant yn ei dderbyn.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus a gallant rannu'r hyn maent ei eisiau a'u hanghenion. Maent yn dewis eu gweithgareddau'n rhydd ac yn gwybod y byddant yn derbyn cymorth a chefnogaeth os ydynt yn gofyn. Gwelsom blentyn bach yn pwyntio ac yn gofyn am 'Alexa' a chadarnhaodd y gofalwr ddealltwriaeth o'r cais hwn trwy ofyn i'r plentyn a oedd eisiau cân benodol trwy eiriau a gweithredoedd. Mae'r plant yn hyderus i ddefnyddio adnoddau mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan ymgymryd â gweithgareddau a ddarperir a'u newid fel y dymunant yn aml. Er enghraifft, penderfynodd grŵp o blant cyn oed ysgol y gellid defnyddio'r set o baent ar gyfer gweithgaredd paentio dail i beintio streipiau teigr fel rhan o weithgaredd chwarae rôl.

Mae'r plant yn eithriadol o weithgar ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad am eu dysgu a'u chwarae. Mae ganddynt berthynas gynnes â'r staff ac maent yn mynd atynt yn rhwydd am arweiniad neu gysur. Gwelsom blant iau yn hapus i fynd at ofalwyr i gael cwtsh wrth chwarae ac wrth iddynt setlo i gysgu. Mae'r plant yn ymfalchïo'n fawr yn y ganmoliaeth a'r anogaeth a gânt. Gwyddant y bydd y staff yn ymateb gyda chynhesrwydd ym mhob sefyllfa.

Mae'r plant yn ymddwyn ac yn rhyngweithio'n dda am eu hoed a'u camau datblygu. Gwelsom blant cyn oed ysgol yn aros yn amyneddgar iawn i ymolchi eu dwylo ac i ddewis eu ffrwythau. Maent yn cyd-chwarae'n hapus neu ochr yn ochr â'i gilydd mewn gweithgareddau megis gymnasteg, garddio a lluniadu, gan rannu adnoddau'n ystyriol. Mae'r plant yn mwynhau helpu ei gilydd a'r oedolion. Arsylwodd yr arolygwyr ar grŵp o blant yn esbonio'r drefn amser cinio yn ofalus i ffrind newydd.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd diddorol sy'n briodol o ran datblygiad ac sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyflawn ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain yn hyderus. Maent yn treulio cryn dipyn o amser yn yr awyr agored yn ymgysylltu mewn chwarae egnïol. Mae'r plant cyn oed ysgol yn mwynhau dringo a symud o gwmpas offer pren o uchder amrywiol, tra bo'r babanod a'r plant bach yn datblygu eu sgiliau echddygol gydag amrywiaeth o adnoddau lefel is. Mae'r plant hŷn yn cymryd diddordeb mawr yng ngardd y feithrinfa, gan rannu eu dealltwriaeth o gompostio yn huawdl gyda'r arolygwyr.

Anogir y plant i fwyta'n annibynnol gan ddefnyddio cyllyll a ffyrc, gyda'r plant hŷn hefyd yn gweini dŵr iddynt eu hunain. Mae'r plant yn helpu'r staff i dacluso. Er enghraifft, gwelsom y plant yn tacluso bagiau ffa fel rhan o'u gêm, gan roi pawen lawen i'w gilydd am eu rhoi'n llwyddiannus yn y fasged. Gellid datblygu hyn ymhellach i gynyddu annibyniaeth y plant a'u teimlad o falchder yn eu meithrinfa fel eu hamgylchedd nhw eu hunain.

## Gofal a Datblygiad **Da**

Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau bod iechyd a diogelwch y plant yn cael eu blaenoriaethu. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn y plant, ac yn nodi ac yn rheoli risgiau yn rhagweithiol. Nododd yr arolygwyr fod angen mwy o wybodaeth am asiantaethau diogelu allanol ar rai staff. Ers yr arolygiad, mae'r rheolwyr wedi rhoi canllawiau ac adnoddau ychwanegol ar waith i sicrhau bod y staff yn gwybod y gweithdrefnau ar gyfer rhannu pryderon diogelu y tu allan i'r feithrinfa. Mae damweiniau, digwyddiadau a'r ddarpariaeth meddyginiaeth yn cael eu cofnodi a'u monitro'n effeithiol iawn. Mae gwybodaeth glir yn ymwneud ag alergeddau'r plant ar waith ac ar gael i'r holl staff. Mae dros hanner y staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig. Gweithredir gweithdrefnau ymolchi dwylo effeithiol gan ddefnyddio sinciau y tu mewn a'r tu allan, a llieiniau sychu babanod ar gyfer dwylo ac wynebau.

Mae'r staff yn gofalu am y plant mewn ffordd garedig ac wedi ymlacio, gan gynnig canmoliaeth ac anogaeth gyson i'r plant. Mae'r rhyngweithiadau yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn gwrtais a chyfeillgar ac yn trin ei gilydd gyda pharch. Mae'r staff yn cefnogi dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd ymddygiad cadarnhaol a chydweithio a chwarae'n dda gyda'i gilydd. Er enghraifft, wrth chwarae gyda'i gilydd ar rafft lud, esboniodd aelod o'r staff yn ofalus, *"Y rheswm yw, os ydyn ni'n arllwys gormod arni, fe fydd yn rhedeg i lawr i'r llawr."* Arweiniodd yr esboniad hwn at drafodaeth gan y plant am effaith hyn.

Mae polisïau rheoli ymddygiad clir a manwl ar waith, ac mae'r staff yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn gyson. Mae unrhyw achosion o ymddygiad heriol yn cael eu nodi, eu holrhain a'u dadansoddi. Os oes angen, mae'r lleoliad yn creu cynllun ymddygiad i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r sbardunau a sut y gellir eu lleihau, a sut y gellir rheoli digwyddiadau.

Mae'r staff yn annog chwilfrydedd y plant yn dda, gan adael i'w diddordebau arwain y chwarae a'r dysgu. Mae'r staff yn defnyddio cynllunio 'ar y pryd' i sicrhau bod yr holl weithgareddau yn bodloni diddordebau'r plant. Er enghraifft, gan fod y plant wedi dangos diddordeb mewn teigrod, gosododd y staff ddalennau mawr o bapur i'r plant gael paentio un. Mae'r staff yn cynnal arsylwadau ac yn olrhain datblygiad yn briodol. Maent yn monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd hyn ac yna'n diwygio eu dulliau cofnodi yn unol â hynny. Mae pob plentyn yn derbyn asesiad lleferydd ac iaith wrth ddechrau yn y feithrinfa ac mae cynnydd y plant yn cael ei fonitro i nodi unrhyw ymyrraeth sydd ei hangen. Mae'r rhieni'n cael diweddariadau rheolaidd trwy ap electronig ac adroddiad haf sy'n manylu ar y 'camau nesaf' ar gyfer datblygiad eu plentyn. Caiff y plant ag anghenion dysgu ychwanegol eu cynorthwyo'n dda trwy gysylltiadau effeithiol ag asiantaethau allanol.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn saff. Gall pobl gael mynediad i'r lleoliad trwy system bysellbad diogel ac mae cofnodion yn dangos tystiolaeth y disgwylir i ymwelwyr lofnodi wrth ddod i mewn i'r gwasanaeth. Mae’r rheolwyr yn cynhyrchu asesiadau risg sydd, ar y cyfan, yn nodi'n effeithiol unrhyw faterion diogelwch y mae angen eu hystyried. Mae'r staff yn cwblhau rhestrau gwirio diogelwch dyddiol i sicrhau bod unrhyw faterion sy'n codi o ddydd i ddydd yn cael eu nodi a'u trin. Mae hyn yn cynnwys cofnodion cegin a pharatoi bwyd. Aeth yr arweinwyr i'r afael yn brydlon â mân faterion a nodwyd yn ystod yr arolygiad. Mae’r cofnodion yn dangos bod yr holl wiriadau cynnal a chadw rheolaidd ac arferol ar gyfer yr adeilad ac offer yn cael eu cwblhau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu cyfleusterau eang ar gyfer gofal a gweithgareddau'r plant. Mae'r amgylchedd wedi'i addasu i ddarparu ardaloedd o ansawdd uchel a ystyriwyd yn ofalus. Maent yn sicrhau bod pob man yn groesawgar ac yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae dwy uned ar gyfer gofalu am blant dan ddwy oed a thros ddwy oed. Mae gan y ddwy uned gyfleusterau da ar gyfer bwyta, cysgu a mynd i'r toiled. Mae gan y plant ym mhob uned fynediad i'r awyr agored o'u hardaloedd. Mae'r ardaloedd awyr agored wedi'u cynllunio'n dda gyda gwahanol ardaloedd a llochesi, gan ddarparu mynediad pob tywydd i weithgareddau diddorol ac ymarfer corff yn yr awyr iach. Mae'r mannau awyr agored i blant dros ddwy oed yn hygyrch trwy gydol y dydd, ac mae'r plant yn gwerthfawrogi'n fawr eu hamser y tu allan, gan ddangos brwdfrydedd mawr wrth symud o gwmpas yr ardaloedd â chyfarpar da yn rhwydd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ac yn cynnal ystod eang o adnoddau naturiol a bywyd go iawn o ansawdd eithriadol o dda, fel potiau, sosbenni a llestri. Mae'r staff ym mhob uned yn sicrhau bod yno amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Gall y plant gael mynediad i'r holl deganau'n hawdd, sy'n cynorthwyo eu hannibyniaeth. Mae dodrefn ac adnoddau ym mhob ardal yn ddigonol, o safon uchel, ac yn briodol ar gyfer cyfnod datblygu’r plant. Maent yn hyrwyddo chwilfrydedd a darganfod. Mae'r plant yn defnyddio'r gofod awyr agored ar gyfer chwarae egnïol ac mae'n rhoi cyfleoedd da iawn i'r plant ymestyn eu dysgu a'u datblygiad.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Digonol |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn fedrus ac yn brofiadol. Ar y cyfan, maent yn rheoli'r gwasanaeth yn dda, ond mae angen gwelliannau i sicrhau bod y rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol bob amser yn cael eu bodloni. Mae'r datganiad o ddiben yn gynhwysfawr ac yn darparu gwybodaeth glir i'r rhieni ynglŷn â'r gwasanaeth, fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am ei addasrwydd ar gyfer eu plentyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal polisïau a gweithdrefnau manwl sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl yr angen. Mae rhai, fel y polisi ar gyfer plant sy'n mynd ar goll, wedi'u diweddaru'n ddiweddar. Mae'r staff yn cadw cofnodion da, megis gwybodaeth bersonol y plant am eu hanghenion unigol, cofnodion damweiniau, a chofnodion o'r feddyginiaeth a roddwyd. Fodd bynnag, nid yw cofnodion presenoldeb y staff yn glir gan fod systemau cofnodi lluosog ar waith, a all achosi dryswch. Trafodwyd hyn gyda'r unigolyn cyfrifol ac mae system glir ar gyfer cofnodi presenoldeb yn cael ei rhoi ar waith.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weithdrefnau hunanwerthuso addas ar waith. Maent yn cynnal adolygiad blynyddol o'u lleoliad, gan ymgynghori â'r rhieni, y staff a gweithwyr proffesiynol eraill fel rhan o'r broses. Mae'r staff yn cael safbwyntiau'r plant am weithgareddau trwy siarad â nhw neu arsylwi ar sut maent yn ymateb. Maent yn cynhyrchu adroddiad ar ganfyddiadau eu hadolygiad blynyddol ac mae hwn yn cynnwys cynllun gweithredu ar gyfer unrhyw welliannau a nodwyd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau'r datganiad hunanasesu gwasanaeth yn dda ac yn ei gyflwyno, ar gais, i Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae polisi cwynion addas ar waith, pe bai rhieni am unrhyw bryderon am y lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cadw ffeiliau'r staff yn dda iawn, sy'n dangos tystiolaeth bod yr holl wiriadau perthnasol yn cael eu cynnal i sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda'r plant. Mae system glir ar waith i sicrhau bod gwiriadau'r staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol. Mae cyfleoedd da i'r staff dderbyn hyfforddiant yn ôl yr angen. Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth bob amser yn defnyddio'r staff yn effeithiol i sicrhau bod y nifer addas o staff yn gweithio i gynnal y cymarebau staff:plentyn a argymhellir ym mhob rhan o'r lleoliad. Nid yw cofnodion presenoldeb y staff bob amser yn glir. Mae hwn yn fater o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau. Fodd bynnag, nid ydym wedi dyroddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth y tro hwn gan fod yr unigolyn cyfrifol wedi rhoi sicrwydd inni y byddai'r mater hwn yn cael sylw ar unwaith, ac y byddai'n monitro staffio yn y lleoliad. Felly, gwnaethom nodi maes i'w wella a bydd hyn yn destun camau dilynol yn yr arolygiad nesaf. Mae'r holl staff yn derbyn goruchwyliaeth un-i-un reolaidd ac arfarniad blynyddol. Mae cyfarfodydd staff yn hyrwyddo rhannu arferion da a diweddariadau i bolisïau a gweithdrefnau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi yn y lleoliad. Dywedasant fod y tîm rheoli bob amser ar gael ac yn barod i helpu gydag unrhyw ymholiadau a allai fod ganddynt. Mae gan y staff fynediad at gynllun cymorth 24/7 ac mae rhai staff wedi'u hyfforddi i gynnig cymorth cyntaf iechyd meddwl.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi datblygu partneriaethau effeithiol gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae'r lleoliad wedi sefydlu ymddiriedaeth a chysylltiadau cyfathrebu effeithiol gyda'r rhieni, gan gynnwys ap cyfathrebu electronig, sgyrsiau llafar dyddiol, e-bost a chylchlythyrau. Mae AGC wedi derbyn gwybodaeth gan rieni sy'n dangos eu bod yn hapus gyda'r lleoliad. Maent yn hynod gadarnhaol am yr wybodaeth a dderbyniant a'r cyfathrebu am ofal eu plentyn ac yn canmol y staff am eu gofal. Dywedodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wrthym hefyd fod ganddynt gysylltiadau cryf â thimau gofal plant yr awdurdod lleol, gan gael cymorth a grantiau ariannol yn ystod pandemig COVID-19. Maent wedi gweithio'n agos gydag adran iechyd y cyhoedd, ac wedi ymgynghori'n effeithiol â nhw yn ystod pandemig COVID-19. Maent yn cael cymorth gan ymwelwyr iechyd a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ynghylch unrhyw ofal arbenigol sydd ei angen.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Ni wnaed unrhyw argymhellion gan fod y darparwr wedi gwneud nifer o welliannau i bolisïau a dogfennau yn ystod yr arolygiad.

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i’r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes / Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 27 | Bu achlysuron pan nad yw cymarebau staff:plentyn wedi'u cynnal yn unol ag argymhellion yn y safonau gofynnol cenedlaethol. Roedd y systemau i gofnodi presenoldeb y staff yn aneglur. | Newydd |

| **Sgoriau** | **Ystyr y sgoriau** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 13/09/2022